Cylchlythyr Cymunedol Dolwyddelan

Gwanwyn 2026



I gysylltu â'r Pafiliwn – 01690 750 490 (peiriant ateb)
Os ar frys cysylltwch ag un o'r canlynol -
Paul Donnelly 07534 120 193 Bob Valintine 01690 750 205
Kirsty Jones 07703 834 322
mentersiabod@googlemail.com
Pafiliwn Cymunedol Dolwyddelan, Tu ôl i'r Ysgol
Dolwyddelan, Conwy LL25 0SZ


Sinema'r Pentref

Ystafell Gwyddelan– 7.00yp Atyniadau sydd ar y gweill

Mawrth 18



Ebril 15



Mai 20



Ar gael i'w llogi fesul diwrnod gan Fenter Siabod yn y Pafiliwn . . .

Cadair Olwyn - rhodd
Pebyll - £50 y dydd (ynghyd â blaendal o £50)
Byrddau Plyg – am ddim i drigolion lleol
Teclyn siampŵio Carpedi - £10 y dydd
Glanhawr Mannau Penodol (yn ddefnyddiol ar gyfer y grisiau) £5 dydd



Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Sefydliad	Bore (hyd at 4 awr)	Prynhawn (hyd at 4 awr)	Gyda'r nos (hyd at 4 awr)	Diwrnod Llawn
Cyfarfodydd cyson (wythnosol/misol) Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£10	£10	£10	£25
Un-tro neu achlysurol Lleol/Elusennol/Gwirfoddol Sefydliadau	£15	£15	£15	£35
Busnes	£25	£25	£25	£60
Mae'r defnydd o gyfarpar Clywedol/Gweledol yn gost ychwanegol o £5 y sesiwn				
Bydd sefydliadau Lleol/Elusennol/Gwirfoddol (digwyddiadau rheolaidd) gyda llai na 10 yn bresennol yn talu £1 y pen y sesiwn hyd at 4 awr.				

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . .

Bob Valintine 01690 750 205 Paul Donnelly 07534 120 193
Kirsty Jones 07703 834 322

Mae Clwb Ieuenctid Dolwyddelan yn mynd o nerth i nerth, gyda 15-20 o bobl ifanc yn mynychu pob wythnos! Mae'n wych gweld cymaint o bobl leol yn dod ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gwneud ffrindiau a mwynhau bod yn rhan o'r gymuned. Mae'r clwb ar agor pob dydd Mercher yn ystod tymor yr ysgol o 17:00 tan 19:00 ym Mhafiliwn y Pentref. Rydym yn falch dros ben o lwyddiant y clwb ac yn edrych ymlaen at groesawu hyd yn oed mwy o bobl ifanc. Thanks Matt

NOSON GWERTHU EITEMAU AIL-LAW TEBYG I VINTED



Dewch ag eitemau draw i werthu,
neu gallwch alw heibio i bori neu i brynu.
Yn y Pafiliwn, Ebrill y 9fed, am 7yh



Ffi mynediad yn £5 gan gynnwys te/coffi a chacennau cartref.
Bydd yr holl elw o'r ffioedd mynediad yn mynd tuag at Garnifal.
Dewch â'ch eitemau ar y noson.
Dillad – Bagiau – Esgidiau ac ati (mewn cyflwr da.)
Fe gewch chi gadw unrhyw bres fyddwch chi'n ei wneud wrth werthu'ch eitemau.
Croeso mawr i bawb I wybod mwy, ffoniwch **07538 265 626**

SEFYDLIAD Y MERCHED - DOLWYDDELAN WI

BINGO NIGHT

All Welcome - Croeso i Bawb



FRIDAY 10TH APRIL 2026 -
DYDD GWENER 10FED O EBRILL
Prize Games & Refreshments
£1 per book
7PM - YSGOL DOLWYDDELAN - DOORS OPEN 6.30PM

Cymdeithas Pysgota Dolwyddelan

Rydym nawr yn derbyn cynnigion am y swydd Cadeirydd ir clwb.

Pob cynnig ac am fwy o fanylion cysylltwch a

sianeirianlloyd@gmail.com



Diwrnod ym Mywyd … Warden Eglwys

Yn Eglwys Sant Gwyddelan, ym mhentref bach Dolwyddelan, mae llawer o'r hyn sy'n digwydd yno'n digwydd yn ddiarwybod i neb. Caiff drysau eu datgloi, mannau eu paratoi, canhwyllau eu cynnau, rotas eu trefnu – yn aml iawn heb unrhyw ffwdan. Am y chwe blynedd diwethaf, bu Sue yn gweithio fel un o Wardeiniaid yr Eglwys yn helpu i sicrhau bod hyn i gyd yn cael ei gyflawni.

Fe gymrodd Sue yr awenau dros y rôl pan nad oedd Warden blaenorol yr Eglwys yn gallu parhau. "Fe wnes i gymryd yr awenau ar y pryd, ac rydw i wedi parhau ers hynny," dywedodd, mewn ffordd sy'n adlewyrchu ei hymagwedd ymarferol, diymhongar at ei gwasanaeth.



I Sue, mae gweithio fel Warden Eglwys yn rôl rydych chi'n ei llywio eich hun. "Mae'n dibynnu arnoch chi yn y bôn," eglurodd. "Oherwydd fy mod i'n brin o amser, mae fy rôl i yn ymwneud â chydlynu'n bennaf – sicrhau fod popeth sydd angen ei gyflawni *yn cael* ei gyflawni, a bod y bobl sy'n helpu yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw."

Yn aml mae hynny'n golygu gofalu am yr adeilad: cloi, glanhau, trefnu popeth ar gyfer addoli, a threfnu rotas ar gyfer gwasanaethau. At hyn, mae gofyn imi gyflawni gwasanaeth llawer llai ymarferol. "Cynnig clust i wrando," dywedodd Sue. "Mae hynny'n rhan o'r gwaith yn ogystal."

Weithiau mae pobl wedi'u synnu o glywed nad yw'r rôl mor frawychus ag mae'n ymddangos. "Nid yw'n anodd," dywedodd yn syml – yn enwedig pan gaiff ei rannu.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn i Sue ydy'r gwyliau. "Addurno'r eglwys gyda gwyrddni – sy'n eco-gyfeillgar bob amser – a bwrw golwg ar bopeth yng ngolau cannwyll," dywedodd. "Mae'n edrych yn arbennig. Hudolus, a dweud y gwir."

Wrth gwrs, mae yna gyfrifoldebau sydd ddim yn amlwg. Rhai yn fwy heriol na'i gilydd. "Deall sut mae'r gwres yn gweithio," Dywedodd Sue gan chwerthin – tystiolaeth bod gan bob gweinidogaeth ei dirgelion.

Mae rhai adegau yn aros yn ei chof mwy nag eraill. "Priodasau," dywedodd heb oedi. "Maen nhw bob amser yn fendigedig."

Yn wir mae gofyn imi fod yn drefnus er mwyn cydbwyso'r rôl gyda gweddill fy mywyd – hynny a chymorth gan bobl eraill wrth gwrs. "Mae gen i dîm arbennig a chymwynasgar dros ben sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o'r tasgau angenrheidiol," dywedodd. "Llawer o waith a wna llawer o ddwylo heb os."

Rwy'n derbyn cymorth mewn sawl ffordd: gan y gynulleidfa, y clerigwyr a gan y ffydd ei hun. "Cael ffydd y bydd popeth yn iawn yn y pendraw, rhywsut," myfyriodd Sue.
Pan ofynnwyd iddi beth mae bod yn Warden Eglwys yn ei olygu iddi'n bersonol, mae hi'n oedi. "Dydw i ddim yn meddwl amdano ryw lawer," dywedodd. "Ond mae'n bwysig imi fy mod i'n defnyddio fy sgiliau i helpu eraill lle bynnag a sut bynnag y galla i."
Neges syml a chalonogol sydd ganddi i'r darllenwyr: "Rydym ni i gyd yn cyflawni hyd eithaf ein gallu. Ond gorau po fwyaf o bobl sy'n helpu ac yn cymryd rhan – er mwyn sicrhau bod pethau'n haws ac yn fwy hylaw i bawb."

Eglwys Sant Gwyddelan

Dyddiadau Gwasanaethau a Digwyddiadau . . .

Dydd Sul **Mawrth 1**– am 09:30 **Sant Gwyddelan** – Cymun
Dydd Sul **Mawrth 15** – am 09:30 **Sant Gwyddelan** – Cymun
Sul y Pasg **Ebrill 5** – am 09:30 **Sant Gwyddelan** – Cymun

Manylion cyswllt **. . .**
Ffon: 01690 710313 neu stuartelliott@cinw.org.uk
Rhif Cofrestru Elusen: 1181120
Facebook: Bro Gwydyr ac St. Gwyddelan's

Ardal Weinidogaeth
Bro Gwydyr
Ministry Area

CLWB DYDD LLUN

Bydd Clwb dydd Llun Dolwyddelan yn cwrdd yn y Pafiliwn ar drydydd dydd Llun pob mis yn ystod y rhan fwyaf o fisoedd. Bydd ein cyfarfodydd yn cychwyn am 2 ac yn dod i ben pan mae'n gweddu inni. Bydd cyfarfodydd y chwarter nesaf ar . . .

Mawrth 16 – Ebrill 20 – Mai 18

Mewn rhai cyfarfodydd byddwn yn difyrru ein hunain gyda chwis neu sgwrs – ac mewn ambell i gyfarfod arall byddwn yn croesawu siaradwr gwadd. Rydym wedi mwynhau trafodaethau am amryw o wahanol bynciau yn y gorffennol. Yn ein cyfarfod ym mis Mawrth bydd gennym sgwrs ac arddangosiad ar Frodwaith 'Stump'.
Wrth gwrs bydd paned, bisgedi a chyfle i sgwrsio a chwerthin fel arfer. At hyn, rydym yn trefnu taith flynyddol, ac wedi mwynhau taith gwch o amgylch Ynys Seiriol, wedi ymweld ag Amgueddfa'r 1950au yn Ninbych ac wedi mwynhau taith o amgylch Ynys Môn ac ati.

Mae croeso mawr i aelodau newydd bob amser.

Yn olaf – unwaith eto, bydd colled enfawr ar ôl Eurwyn Roberts sydd wedi bod yn siaradwr gwadd sawl gwaith ac a fu'n gyfaill da iawn i'r Clwb dydd Llun.

John Weedon

Dolwyddelan yn dod a Llygedyn o Haul ar Ddydd San Steffan

Wrth gwrs mae gan Ddolwyddelan y gallu i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiad chwaraeon yn un o'r radd flaenaf gyda phawb yn chwerthin llond eu bol. Doedd Dydd San Steffan ddim gwahanol.

Roedd hi'n ddiwrnod gaeafol ond braf prin a daeth trigolion y pentref ynghyd ar gyfer cystadleuaeth rholio casgenni blynyddol ar ddydd San Steffan. Yn wir mae'r gystadleuaeth rholio casgen yn debyg i nifer o draddodiadau Cymreig lle byddwn yn tybio gyda balchder "pwy a *ŵyr sut gychwynnodd hyn, ond dydyn ni ddim am roi'r gorau iddi bellach".*

Trefnwyd y digwyddiad eleni gan y tîm yn Nhafarn Y Gwydyr, ac roedd yn ddigwyddiad arbennig: roedd torf sylweddol gyda digonedd o floeddio a chwerthin, a rhesi o gystadleuwyr yn amrywio o drigolion lleol profiadol i dîm wedi'i atgyfnerthu gan ymwelwyr rhyngwladol o Awstraliad, a wnaeth gyrraedd fel twristiaid a gadael fel preswylwyr anrhydeddus Dolwyddelan, yn ôl pob tebyg ar ôl dysgu rheolau allweddol y dydd:

1. Gafaelwch yn dynn.
2. Rhedwch nerth eich pen.
3. Os yw'n siglo, daliwch ati.

Yn wir, siglo wnaeth y gasgen.



"Mae gan y gasgen feddwl ei hun" yn ôl y sôn a dyna'n union ddigwyddodd ar hyd y llwybr. Ar adegau bu'n rholio fel athletwr disgybledig. Yna, ar adegau eraill bu'n ymddwyn fel ei fod newydd gofio ei fod yn hwyr i apwyntiad yn rhywle arall yn y pentref.

Er hynny, roedd cystadleuaeth chwyrn, yn debyg i unrhyw gystadleuaeth yn Nolwyddelan: mymryn o uchelgais i ragori yn y chwaraeon, twtsh o

o theatr comedi ond rhoddodd pawb eu holl galon ynddi. Bu'r gwylwyr yn cymeradwyo, yn chwerthin, yn cynnig cyngor tactegol nad oedd modd i unrhyw un ei roi ar waith yng nghanol yr holl firi, a chynnig yr anogaeth arbennig honno sy'n swnio'n gefnogol ond sydd mewn gwirionedd yn ffordd o dynnu coes yn chwareus.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Fragdy'r *M*ŵs Piws am eu nawdd, oherwydd be well ar ôl "perfformiad athletaidd rhagorol" na pheint haeddiannol ar ôl





gorffen. Wrth gwrs mae yfed digon yn bwysig. Yn ogystal â morâl. Gyda lwc mae Bragdy'r Mŵs Piws yn cynnig y ddau.

Ond yn bennaf oll, uchafbwynt y dydd oedd y gymuned. O'r trefnwyr i'r cefnogwyr mewn rhesi ar hyd y llwybr, roedd yn teimlo fel bod yr holl bentref wedi dod draw, yn gwenu o glust i glust, yn clapio ac yn ein hatgoffa nad adloniant ydy'r traddodiadau hyn yn unig; maen nhw'n rhyw fath o lud sy'n dwyn lle ynghyd. (Hynny a'r farn gyffredin achlysurol am daith y gasgen).

Eleni bu inni goroni enillydd newydd (da iawn Cai Price), llwyddiant a gaiff ei gofio am genedlaethau yn sicr, neu o leiaf tan y Dydd San Steffan nesaf lle bydd rhywun yn cystadlu gyda choesau cryfach, cydbwysedd gwell, a llai o amheuon am redeg nerth eu pen i lawr Maes-Y-Lan ar ôl casgen sy'n ffoi.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Urien a Namthip am drefnu'r digwyddiad. Byddai'n amhosibl trefnu digwyddiadau o'r fath heb gymorth, er gwaethaf yr hyn y gallai'r gasgen fod wedi credu, a gyda diolch i'w hymdrech, egni a'u hiwmor da, bu iddyn nhw greu diwrnod arall bythgofiadwy yn Nolwyddelan.

Felly dewch inni glodfori'r haul yn tywynnu ym mis Rhagfyr, ymwelwyr rhyngwladol a wnaeth groesawu'r anhrefn, noddwyr sy'n deall chwaraeon y pentref, a chymuned hwyliog sy'n ymddangos, bob tro, llawn cynhesrwydd a jest digon o nonsens cystadleuol.

Cofiwch chi eich esgidiau rhedeg. Fe wnaiff Urien gyflenwi'r casgenni, fe wna i gadw trefn ar y cystadleuwyr, bydd y gasgen yn achosi drama ac yn dilyn hynny bydd pob un ohonom yn dychwelyd i'n tafarn gymunedol, yn chwerthin gyda'n gilydd gan rannu ysbryd cymunedol a straeon.

Welwn ni chi yno eto'r flwyddyn nesaf? Mike Hewitt

Ein Nadolig a'n Gaeaf cyntaf yn Nolwyddelan

Pan wnaethom ddychmygu ein Nadolig cyntaf yn Nolwyddelan, roeddem yn rhagweld gorchudd o rew ar lawr y dyffryn, s*ŵn clychau'r Eglwys yn atseinio yn yr awyr oer a mygiau o de'n oeri ar y sil ffenest, tra bod glaw – oherwydd dydy glaw byth yn cwympo'n unig yma, mae'n tywallt – yn tapio ar y gwydr*.
Yn lle hynny, fe wnaethom dreulio diwrnod y Nadolig yn Santiago, Chile.
Rhaid oedd inni deithio i ochr arall y byd oherwydd gwaith. Wrth i'r dyffryn sefydlogi i dawelwch y gaeaf, roeddem ni'n sefyll o dan haul Hemisffer y De, yn dathlu'r Nadolig yn ystod yr haf. Er ein bod ni 7,000 milltir i ffwrdd, roeddem yn dal yn cadw llygaid ar dywydd Dolwyddelan. Oedd hi wedi rhewi? Oedd yr afon yn uchel? Oedd y mynyddoedd yn glir? Roedd cerddoriaeth Nadolig i'w glywed yng nghynteddau gwestai, ond roeddem yn dychmygu clywed carolau'n atseinio'n agosach at adref.
Fe wnaethom ddychwelyd i'r gaeaf yn aros amdanom ni. Toeau llechi wedi'u tywyllu gan y glaw. Bryniau wedi'u lapio mewn niwl. Yr afon yn byrlymu ar ôl storm. Nid yw'r gaeaf yma yn addurniadol; mae'n elfennol. Mae goleuni'n werthfawr. Mae coed tân yn annatod. Mae bore clir yn teimlo fel rhodd.
Yna mae mis Ionawr yn darparu'r hyn y mae pob dyffryn yn gobeithio amdano – eira.
Eira prydferth, fasa'n edrych yn ddelfrydol ar gerdyn post.
Fe wyddom hyn oherwydd fe wnaethom ni ei golli.
Tra'r oeddem i ffwrdd eto ar gyfer gwaith, bu i Ddolwyddelan drawsnewid i fod yn Narnia am gyfnod byr. Fe gyrhaeddodd y lluniau: toeau gwyn, awyr las bendigedig, Moel Siabod yn sefyll gyda balchder. Roeddem ni'n teimlo siom aruthrol. Yn y bôn, mae'r ymdeimlad o berthyn yn golygu awydd o fod ymhlith yr eira, nid ei edmygu o bell yn unig.
Unwaith inni ddygymod â'r siom hwnnw, bu digwyddiad annisgwyl arall yn y pentref – cafodd fferm canabis sylweddol ei ganfod. Nid y ddelwedd ddelfrydol cefn gwlad ar gyfer llyfryn. Ond bu i'r trigolion ymdrin â hyn yn ddiffwdan yn ogystal: codi aeliau, sgyrsiau ymarferol a bywyd yn mynd rhagddi.
Dyma beth wnaethom ni ei ddysgu o ganlyniad i'n gaeaf gyntaf yn Nolwyddelan: mae gormod o ganmol i berffeithrwydd. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ydy rhythm, cymuned a'r anadl ddistaw rydych chi'n ei deimlo wrth i'r dyffryn eich cofleidio ar eich taith adref.
Doedden ni ddim yn ymweld.
Roeddem yn dychwelyd adref.
Fe wnaethon ni ddisgyn mewn cariad gyda Dolwyddelan yn yr haf.
Fe wnaethom deimlo ymdeimlad o berthyn yn Nolwyddelan yn y gaeaf.

Lloyd C. Mason-Boardman

GWESTY'R GWYDYR

Yng nghalon ❤ Dolwyddelan

Eryri • Llety Gwerth Chweil • Bwyd & Diod

Ar agor dydd Mawrth i ddydd Sul – **12.00** tan yn hwyr
Bwyd bob dydd 17.00 - 20.30

Cinio Dydd Sul Cartref.
Llety i fyny'r grisiau gyda gwasanaethau arlwyo ar gael.
Rydym yn arlwyo ar gyfer digwyddiadau preifat.
Bwyd Thai bob dydd Mercher – gallwch ei gludo gyda chi.

Namthip – "Rwy'n coginio gyda chynhwysion ffres."



MARCHNAD GREFFTAU

Dechrau Dydd Sul Mai 2 yng Y Gwydyr Hotel
12.00 i 16.00 – misol
Cysylltwch gyda Namthip os hoffech chi drefnu stondin i werthueich crefftau neu eich cynnyrch.

I gadw bwrdd, ac ar gyfer unrhyw ymholiadau: 07464 710257
Facebook: Y Gwydyr Hotel Dolwyddelan



Cynllun Hydro Cymunedol Dolwyddelan

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cyngor cymuned wedi mynd ati i ymgeisio am grantiau a oedd ar gael i gyflawni astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynlluniau hydro cymunedol. Fe wnaethom benodi ymgynghorydd o 'Cymru.Hydro' i gyflawni astudiaeth ddichonoldeb a llunio cynllun ar gyfer y cynllun hydro. Mae wedi comisiynu arolygon archaeoleg, ecoleg, topograffig ac am goed. Rydym yn aros am yr adroddiad geomorffoleg ar hyn o bryd. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, caiff trwydded tynnu ei anfon at Cyfoeth Naturiol Cymru a chais cynllunio ei hanfon at Barc Cenedlaethol Eryri.

Hyd yma, mae'r cyngor cymuned wedi cyflawni hyd eithaf eu gallu ar y prosiect. Bydd yr holl ganiatâd mewn lle yn y 6-9 mis nesaf. Gan fwrw golwg tua'r dyfodol, bydd angen sefydlu mudiad i fwrw iddi gyda'r prosiect at y cam adeiladu a gweithredol, ymhen yr amserlen 6-9 mis hon. Hefyd bydd yn rhaid i'r mudiad ymgeisio am grantiau o amryw o wahanol gronfeydd ar gyfer y gwaith adeiladu.

Opsiwn 1: Gallai'r gymuned ddewis sefydlu Cwmni Budd Cymunedol (CBC)

Mae CBC yn fenter gymdeithasol reoledig sy'n ail-fuddsoddi elw er budd y gymuned. Gallai'r gymuned sefydlu a defnyddio model CBC i weithredu'r prosiect hydro wrth sicrhau bod incwm dros ben yn cefnogi gweithgareddau cymunedol.

Manteision:

✅ Sicrhau bod elw dros ben o fudd i'r gymuned.

✅ Mwy deniadol i arianwyr grantiau.

✅ Gallai fasnachu'n rhydd wrth gynnal nod cymdeithasol.

Anfanteision:

❌ Gallu cyfyngedig i ddosbarthu elw'n uniongyrchol i'r Gymuned.

❌ Mwy o oruchwyliaeth ac adrodd rheoleiddiol.

Mae'r opsiwn hwn yn fanteisiol i'r gymuned sydd eisiau endid cyfreithiol ar wahân wrth sicrhau budd cymunedol.

Opsiwn 2: Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)

Mae Sefydliad Corfforedig Elusennol yn strwythur elusennol sy'n sicrhau statws eithriedig rhag treth, sy'n golygu ei fod yn ddelfrydol ar gyfer prosiectau sydd â nod sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd a'r gymuned.

Manteision:

✅ Gall fod wedi'i eithrio rhag treth gorfforaeth.

✅ Trefn llywodraethu cryf a hygrededd ar gyfer ceisiadau am gyllid.

✅ Mwy o gyfle i fanteisio ar grantiau gan gronfeydd amgylcheddol a chymdeithasol.

Anfanteision:

❌ Gallai cyfyngiadau ar weithgareddau masnachol gyfyngu ar werthiannau ynni er elw.

❌ Gofynion rheoleiddiol uwch na chwmni preifat neu Gwmni Budd Cymunedol.

Gallai hyn fod yn atyniadol ar gyfer cymunedau sy'n awyddus i flaenoriaethu effeithlonrwydd treth a llywodraethu elusennol cryf.

Opsiwn 3: Cydweithfa neu Gymdeithas Budd Cymunedol

Byddai Cydweithfa (Co-op) neu Gymdeithas Budd Cymunedol (BenCom) yn caniatáu i'r gymuned berchnogi'r prosiect, gan gynyddu buddsoddiad trwy gynigion cyfranddaliadau.

Manteision:

✅ Mae'n caniatáu buddsoddiad cymunedol, gan gynyddu ymgysylltiad lleol.

✅ Cyfleoedd rhyddhad treth ar gyfer buddsoddwyr cymunedol.

✅ Mae'n cyd-fynd gyda pholisïau Llywodraeth Cymru ar brosiectau ynni cymunedol.

Anfanteision:

❌ Mae'n rhyddhau rheolaeth gymunedol uniongyrchol dros y prosiect.

❌ Mae'n gofyn i fuddsoddwyr gyfrannu'n weithredol.

Gallai hwn fod yn opsiwn da ar gyfer Cymunedau sy'n awyddus i roi dull o dan berchnogaeth y gymuned ar waith gyda buddsoddiad allanol.

Unwaith y bydd y cynlluniau ar gyfer y prosiect wedi'u cwblhau ac yn barod ar gyfer cyflwyno cais cynllunio, byddwn yn hysbysebu ymgynghoriad cymunedol lle gellir arolygu'r cynlluniau, a gallai'r gymuned dderbyn gwybodaeth fwy manwl ar y cynllun a'r buddion cymunedol arfaethedig a phenderfynu ar y math o fudiad i fwrw iddi gyda'r prosiect.

Newid i Lais Digidol

Heb os, fel preswylwyr, rydych chi wedi clywed am y newid i Lais Digidol erbyn 2027, gyda phreswylwyr yn newid o ddefnyddio ceblau i ddefnyddio ffibr. Caiff y rhwydwaith analog cyfredol, sydd wedi dyddio bellach, ei ddiffodd ar gyfer holl ddarparwyr ffonau.

Mae'r Cyngor Cymuned wrthi'n trefnu bod cynrychiolydd o Digital Voice yn mynychu noson yn

Ystafell Sant Gwyddelan, tua chefn Ysgol Dolwyddelan
ar ddydd Gwener, Mawrth yr 20fed am 7yh.

Cyfle i breswylwyr ddod draw ar gyfer sesiwn cwestiynau ac atebion.

Y Newyddion Diweddaraf am Gapel Hanesyddol Bethel yn Nolwyddelan

Mae Grŵp Gweithredu Bethel (BAG), elusen cyfansoddedig nid-er-elw, yn parhau gyda'u hymdrechion i sefydlu Capel Bethel fel ased cymunedol sylweddol. Mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi bod cynnydd yn cael ei wneud, fodd bynnag ni allwn ddatgelu unrhyw wybodaeth hyd yma.

Yn y cyfamser, mae cyflwr gwael cyfredol Capel Bethel a'r difrod mae'n ei wynebu yn parhau i ddirywio'r adeilad a'r tir ymhellach. Bellach mae mwy o ffenestri wedi'u torri; mwy o sbwriel wedi'i adael yma ac mae bin olwynion y capel yn orlawn o wastraff o rywle arall. Ar hyn o bryd mae tir y Capel yn llythrennol yn cael ei ddefnyddio fel tomen sbwriel.








Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch gyda ni. Rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf?

Cysylltwch am fwy o wybodaeth . . .

Ysgrifennydd BAG: Helena Wroblewska, 07828 761114
Helena_w@btinternet.com

Cadeirydd BAG: Richard Griffin, 07736 059925
Richard_griffin@btinternet.com

Trysorydd BAG: Jon Reynolds, 07722
040778,Jon1reynolds@outlook.com

Gwefan: bethel-action-group.jimdosite.com **Facebook**: Grŵp Bethel



Os oes unrhyw un yn dymuno cynnal stondin yn y carnifal, neu os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch - CarnifalDolwyddelan@yahoo.com

GRWP CREFFT DYDD LLUN

Rydym yn cwrdd pob dydd Llun, 10.00yb tan 1.00yp, yn y Pafiliwn.



Mae croeso ichi roi cynnig ar unrhyw grefft, cyn belled â nad oes unrhyw lanast! (Dim weldio.)



Mae ein grŵp yn meddu ar brofiad o grosio, gwau, tatio, cwiltio, gwehyddu, tapestri, croesbwytho ac ati. Os oes angen nodwydd arnoch chi, mae'n debyg ein bod ni eisoes wedi rhoi cynnig arni!

Ydych chi'n bwriadu cychwyn crefft, ond yn ansicr sut i fwrw iddi, mae'n bosib iawn fod gennym ni rywun sydd wedi'i wneud eisoes a byddan nhw'n fwy na pharod i gynnig cyngor.

Ydych chi wedi bod awydd cwiltio, ond yn ofn cychwyn arni?

(Mae hyd yn oed dau ddyn sy'n mynychu'r grŵp yn rheolaidd!)

JMS PORSCHE North Wales

Porsche specialist but able to cater for all makes & models of vehicles. We can carry out all level of work. Diagnostics, servicing including gearbox servicing, brakes, suspension & clutch replacement.

We offer a 10% discount on labour to anyone in the Dolwyddelan area!

Tel: 07802 44 22 85
Email: jmsporschewales@gmail.com
Find us on Google maps or Facebook: search JMS Porsche North Wales

Snowdonia Massage Therapies

Alison Richmond MGHT
Mobile Therapist

Neal's Yard Remedies
Independent Consultant
Massage Treatments and
Hot Stone Therapy

Call: **01690 750 222**
Mob: **07534 284 188**

Visit my Neal's Yard shop:
www.uk.nyrorganic.com/shop/alison richmond
Facebook: alisonrichmondnealsyard

10% discount off all Massage Treatments with this advert. Please quote - Menter Siabod when booking, discount cannot be used in conjunction with any other offer.

GARY 'LOGS' EDWARDS

LOGS and KINDLING

Small or large loads

07718 505 093



SPORTS THERAPY JW SPORTS THERAPY

The Old Surgery,
Church Street,
Dolwyddelan
LL25 0SJ

Injury Assessment, Treatment & Rehabilitation Sports Massage.

To Book Appointments:

Phone: 07548221712
Email: JWsportstherapy9@gmail.com

Bodhi MOVEMENT

Bodywork & Movement Studio

The Studio, Royal Oak Stables,
Betws y Coed

Injury Assessment
Sports Massage
Movement Analysis
Yoga Classes

01690 359081
www.bodhi-movement.co.uk

Carrie & Mike look forward to welcoming you to

Plas Penaeldroch

ACCOMMODATION

Pont-y-pant

Plas Penaeldroch Manor
Pont-y-Pant, Dolwyddelan
LL25 OPJ **Tel:** 01690 750 316

For information - **Website:**
www.penaeldroch.co.uk

'Celebrating 10 years, and still rebuilding'
Follow our restoration blog:
www.penaeldroch.co.uk/blog

Local Artist

Helena Z Wróblewska

Mobile: 07828 761114
Email: HZWDesigns@ProtonMail.com
Website: www.hzwdesigns.com



Personal Commissions
Hand Painted Welsh Slate
Watercolour & Ink Whimsical Paintings
Acrylic Paintings & Portraits

ILD

PEIRIANNEG ENGINEERING

Domesdig ~ Ffermio ~ Busnes

Domestic ~ Farming ~ Business

Cattlegrids – Gates – Railings
Birdfeeders – Garden metalwork
Agricultural machinery repairs

Gwefan: www.ildcattlegrids.co.uk
www.ildengineering.co.uk

Ebost: ildcattlegrids@gmail.com
ildaviesengineering@gmail.com

Ffon: 07760295557